# <u>Cwestiynau Cyffredin</u>

## Beth mae'r datblygiad newydd yn ei olygu?

Bydd y ganolfan newydd yn dod â dau Bractis Meddyg Teulu sy'n gweithio'n annibynnol ynghyd (Practis Meddygol Ringland ac adleoliad arfaethedig Meddygfa Park) mewn cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf ac yn ymgorffori ystod o wasanaethau newydd nad oedd ar gael o'r blaen.

## Pryd fydd y ganolfan newydd yn agor?

Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar y safle a'r gobaith yw y bydd y ganolfan wedi'i chwblhau erbyn Hydref 2024.

## Pa wasanaethau fydd ar gael yn y ganolfan newydd?

Bydd y ganolfan yn dod ag ystod eang o wasanaethau o dan yr un to, gan gynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau Meddyg Teulu
- Gwasanaethau Deintyddol
- Gwasanaethau Asesu Cof
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol
- Awdioleg
- Bydwreigiaeth Gymunedol
- Nyrsio Ysgol
- Dechrau'n Deg
- Ymwelwyr Iechyd
- Dietegwyr
- Nyrsio Ardal
- Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd
- Podiatrydd
- Ffisiotherapi Mynediad Uniongyrchol
- Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol

**A fydd yna leoedd parcio yn y ganolfan newydd?**

Bydd, bydd y datblygiad yn cynnwys cyfanswm o 119 o leoedd parcio newydd, gyda lleoedd ar wahân i gleifion a staff.

**Pa wasanaethau bws fydd yn rhedeg i'r Ganolfan?**

Bydd yna wasanaethau bws rheolaidd yn rhedeg i'r Ganolfan newydd, gweler y ddolen atodedig sy'n manylu ar yr holl wasanaethau bws.
Llwybrau a Mapiau  Newport Bus

**Pa ddeintyddfeydd fydd yn symud i'r ganolfan newydd?**

Bydd y ganolfan yn cynnwys llety estynedig ar gyfer Practis Deintyddol Ringland (sydd wedi'i leoli yng nghanolfan Siopa Ringland ar hyn o bryd), yn ogystal â gwasanaethau deintyddol cymunedol arbenigol ar gyfer rhai ag anghenion penodol.

**Beth os nad ydw i eisiau teithio i Ringland?**

Bydd y ganolfan newydd yn darparu ystod eang o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol o dan un to a gobeithiwn y bydd holl gleifion presennol Meddygfa Park yn manteisio ar y cyfleusterau newydd gwych hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chael mynediad i'r ganolfan newydd, siaradwch ag un o dîm y Practis neu cysylltwch â ni ar 01633 656392 a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i fynd i'r afael â'ch pryderon.

**A fydd yna fynediad uniongyrchol o'r ganolfan i'r Hwb drws nesaf?**

Bydd, bydd yna fynediad uniongyrchol i'r hwb cymunedol drws nesaf, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Canolfan Cyngor ar Bopeth
- Gwasanaethau Llyfrgell a digwyddiadau
- Lle ar gyfer adloniant a hamdden
- Dosbarthiadau dysgu oedolion
- Cefnogaeth i bobl ifanc 11-25 oed

## A fydd yna ardal gemau amlddefnydd o hyd ar safle Ringland?

Bydd, bydd yr ardal gemau amlddefnydd yn cael ei hadfer ar y safle fel rhan o'r datblygiad cyffredinol. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2022.

## A fydd hi'n haws cael apwyntiad meddyg teulu?

Ers cyn y pandemig, mae’r model practis meddyg teulu traddodiadol wedi bod yn datblygu a newid, gyda phractisau’n ehangu eu timau, fel bod cleifion yn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion ar yr adeg honno. Bydd llawer o bractisau meddygon teulu wedi sefydlu tîm practis amlddisgyblaethol, sy’n cynnwys rolau estynedig fel Uwch Ymarferwyr Nyrsio, Fferyllwyr, Ffisiotherapyddion, a Therapyddion Galwedigaethol, a bydd rhai ohonynt ar gael yn y ganolfan newydd. Nid oes angen i gleifion weld meddyg teulu bob tro a bydd gan y practis systemau ar waith i gyfeirio cleifion at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol neu'r gwasanaeth gorau i'w trin. Mae hyn yn galluogi meddygon teulu i weld y cleifion mwyaf cymhleth sydd â'r angen mwyaf.